## Cyfarfod Gweinidogion y Trydydd Sector – Economi a Seilwaith

Nodyn o'r cyfarfod a gynhaliwyd am 2pm ar ddydd Llun, 2 Hydref 2017, yn y Conference Room, yr 2il lawr, Tŷ Hywel, Caerdydd.

### Gweinidogion a oedd yn bresennol

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Ken Skates AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith |

### Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Matthew Brown | CGGC |
| Gareth Coles | Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| Derek Walker | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Gareth Hughes | Race Equality First |
| Matt Appleby | Busnes yn y Gymuned Cymru |
| Peter Williams | Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| Peter Jones | Cŵn Tywys Cymru |
| David Williams | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |
| Anne Meikle | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Cath Lewis | Plant yng Nghymru |
| Christine Boston | Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru |

### Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Dilys Jackson | Welsh Assembly of Women |
| Lynne Hill | Plant yng Nghymru |
| Gethin Rhys | Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| Sara Mackay | Celfyddydau Anabledd Cymru |
| San Leonard | Cwmnïau Cymdeithasol Cymru |
| David Smith | Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru |

### Swyddogion Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Stephen Layne | Polisi a Strategaeth Economaidd |
| Derek Goode | Polisi a Strategaeth Economaidd (cofnodwr) |
| Rhodri Griffiths | Polisi Trafnidiaeth, Cynllunio a Phartneriaethau |

## 1. Cyflwyniadau a Sylwadau Agoriadol

1.1 Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith groesawu aelodau i Ail Gyfarfod Gweinidogion y Trydydd Sector yn 2017. Rhoddodd sylwadau ynglŷn â'r drafodaeth adeiladol, agored ac onest yn ystod y cyfarfod diwethaf, a'r gwerth a roddwyd ar fewnbwn gan y trydydd sector.

1.2 Cyn symud ymlaen at brif eitemau'r agenda, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dynnu sylw at yr ymgynghoriad sydd ar fin cael ei gynnal ynghylch y polisi trafnidiaeth yng Nghymru. Byddai'r ymgynghoriadau yn ymwneud â'r cynllun pris consesiynol gorfodol presennol yng Nghymru a'r posibilrwydd o ehangu tocynnau bws consesiynol ar gyfer pobl ifanc.

1.3 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet agenda'r cyfarfod, gan esbonio bod dwy brif eitem i'w trafod. Y cyntaf oedd y papur Trydydd Sector yn ymwneud â'r ymgynghoriad ynghylch 'Trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru'. Yr ail bapur oedd ymateb y trydydd sector i Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol, a lansiwyd ar 19 Medi 2017.

## 2. Ymateb i'r ymgynghoriad ar 'Trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru'

2.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwasanaeth tacsis/cerbydau hurio preifat o ansawdd da yn rhan hanfodol o'r rhwydwaith trafnidiaeth yng Nghymru. Mae gwella'r ddarpariaeth tacsis a meysydd eraill o drafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol er mwyn galluogi datblygiad trafnidiaeth aml-ddull integredig ddi-dor ledled Cymru.

2.2 Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cam cyntaf, wrth ddatblygu'r cynigion, drwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Gwneir hyn er mwyn ceisio safbwyntiau ynghylch sut y gellid gwella trefniadau trwyddedu tacsis / cerbydau hurio preifat.

2.3 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn bwriadu datblygu cynigion manylach a fydd yn destun ymgynghoriad pellach ar ddechrau'r gwanwyn yn 2018.

2.4 Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet wahodd Peter Jones i gyflwyno Papur y Trydydd Sector.

2.5 Dywedodd Peter Jones, aelod o Gŵn Tywys Cymru, fod y papur yn amlinellu'r prif broblemau a oedd yn effeithio ar y bobl roedd ef yn eu cynrychioli. Tynnodd sylw at y ffaith bod problemau gweld gan 100,000 o bobl ar hyn o bryd yng Nghymru, a disgwylir i'r nifer hwn ddyblu yn y dyfodol. Dywedodd hefyd fod y materion a godwyd hefyd wedi effeithio ar bobl anabl eraill, nid yn unig y rhai yr oedd ef yn eu cynrychioli.

2.6 Problem fwyaf y bobl yw gyrwyr tacsis sy'n gwrthod eu derbyn i'w cerbyd. Yn aml, mae hyn oherwydd eu bod yn gwrthod cymryd ci tywys, a gall hyn ddigwydd er gwaethaf y ffaith bod y cwmni tacsi wedi cael gwybod am y ci yr adeg pan drefnwyd y tacsi. Gall hyn fod yn brofiad trawmatig i berchnogion cŵn tywys, sy'n cael sgil-effaith ar eu hyder a'u hannibyniaeth.

2.7 Mae ymchwil gan Comisiwn y Gyfraith wedi profi mewn nifer o achosion bod gyrwyr yn gwrthod am y rheswm syml nad ydynt yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

2.8 Dywedodd Peter Jones ei bod yn rhaid i hyfforddiant gorfodol fod yn rhan o'r broses drwyddedu fel ateb i'r sefyllfa. Nid yw hawliau pobl anabl yn newydd, ac mae Anabledd Cymru eisoes wedi darparu hyfforddiant fel hyn i sefydliadau megis y gwasanaethau tân a'r heddlu.

2.9 Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnal ymchwil sydd wedi profi bod y math hwn o hyfforddiant yn gweithio a bod y gost yn fach.

2.10 Tynnodd Peter Jones sylw at y ffaith y byddai angen eithriadau meddygol ar gyfer rhai gyrwyr tacsis mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn angenrheidiol ar gyfer y rhan fwyaf o yrwyr.

2.11 Mae hyfforddiant o'r math hwn i yrwyr yn cael ei weithredu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a gofynnodd Peter Jones i Lywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle a gynigir gan yr ymgynghoriad hwn i symud y system trwyddedu cerbydau yng Nghymru yn y cyfeiriad hwn.

2.12 Amlygodd Cath Lewis fod y materion hyn yn berthnasol i ddefnyddwyr cadair olwyn ifanc hefyd, a bod hyfforddiant cydraddoldeb ac anabledd yn hanfodol i yrwyr. Dylai'r hyfforddiant gynnwys sgiliau ymarferol o ran sut i ddefnyddio rampiau, ond mae agwedd y gyrrwr i deithwyr anabl yr un mor bwysig.

2.13 Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet gydnabod y mater hwn, a dywedodd fod y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor gan Whizz Kidz wedi bod yn gymhellol iawn.

2.14 Esboniodd Gareth Hughes, aelod o Race Equality First, fod pobl ethnig sy'n gyrru tacsis yn profi lefelau sylweddol o droseddau casineb, a bod angen sefydlu system i adrodd ynglŷn â hyn. Yn anffodus, ychydig o gymorth yn unig sydd ar gael i yrwyr gan berchnogion cwmnïau tacsis.

2.15 Dywedodd Christine Boston fod y cerbydau anghywir yn cael eu hanfon at deithwyr anabl ar sawl adeg gan gwmnïau tacsis, er gwaethaf y ffaith bod y teithiwr wedi rhoi gwybod i'r cwmni ynglŷn â'i anghenion. Ni ddylai hyn ddigwydd, ac nid yw'n dderbyniol, a gall olygu colli apwyntiadau meddygol hanfodol a chymorth cymdeithasol, ac mae'n gallu difetha hyder ac annibyniaeth.

2.16 Awgrymodd David Williams nad yw pob gyrrwr tacsi yn meddu ar y sgiliau na'r hyfforddiant cywir, ac nad oes ganddynt yr offer priodol yn y tacsi, i helpu'r holl bobl anabl. Byddai sefydlu rhwydwaith o yrwyr a cherbydau yn gam enfawr ymlaen, er mwyn caniatáu i bobl anabl fod yn hyderus bod y tacsi'n fodlon ac yn gallu eu cludo bob amser.

2.17 Gofynnodd Rhodri Griffiths a oedd canfyddiad bod y broblem yn waeth o ran y sector hurio preifat neu gerbydau hacni.

2.18 Dywedodd Peter nad oedd ganddo unrhyw ddadansoddiad manwl o gwynion wedi'u rhannu yn y modd hwn, ond roedd o'r farn y byddai rhagor o gwynion yn ymwneud â thacsis hurio preifat.

2.19 Dywedodd Chris Lewis fod yr adborth gan Whizz Kidz wedi awgrymu bod gyrwyr tacsis yn codi tâl sy'n uwch na'r cyfraddau safonol ar gyfer teithwyr anabl gan eu bod yn anabl.

2.20 Dywedodd Peter Jones fod hyn yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac ni ddylai ddigwydd.

2.21 Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddiolch y rhai a gymerodd rhan am yr holl bwyntiau a godwyd, gan gydnabod bod angen gwneud llawer o waith i sicrhau urddasrwydd ac annibyniaeth yr holl bobl sy'n defnyddio tacsis. Mae hyfforddi gyrwyr tacsis a gyrwyr proffesiynol eraill yn parhau i fod yn un o'r prif rwystrau o ran darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus hygyrch. Dywedodd y byddai'n:

- paratoi cynigion manwl ynghylch sut i ymdrin â'r materion hyn yn y ffordd orau yng Nghymru
- ymgorffori'r sylwadau a'r adborth gan aelodau'r grŵp hwn a fydd yn arwain at y trefniadau trwyddedu newydd a deddfwriaeth yn y pen draw

| |
|---|
| Cam Gweithredu 1 – Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw pob un o aelodau'r grŵp hwn at yr ymgynghoriad pan fydd yn cychwyn erbyn diwedd 2017. |

2.22 Dywedodd Cath Lewis ei bod yn bwysig cofio bod annibyniaeth ar gyfer pawb yn dda i'r economi.

2.23 Dywedodd Peter Jones fod Grŵp Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio'n dda, a'i fod ef bellach yn edrych ymlaen yn gadarnhaol at weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r rheoliadau newydd hyn ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau preifat.

## 3. Ymateb i Strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru

3.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb" yn nodi nifer o themâu trawsbynciol â blaenoriaeth.

3.2 Esboniodd y byddai Ffyniant i Bawb yn cael ei gefnogi gan nifer cyfyngedig o gynlluniau gweithredu manylach, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Economaidd.

3.3 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwaith ar y Cynllun Gweithredu yn mynd rhagddo, a gwnaeth dynnu sylw at nifer o newidiadau pwysig, gan gynnwys:

- Newid tuag at dargedi nifer llai o sectorau cenedlaethol
- Ffocws newydd ar yr Economi Sylfaen

- Contract Economaidd sy'n ceisio ysgogi buddsoddi cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol
- Dull sy'n canolbwyntio ar ranbarthau o ran datblygu economaidd

3.4 Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet bwysleisio sut mae Ffyniant i Bawb yn ddechrau ymagwedd newydd a gofynnodd am farn y grŵp hwn. Gwahoddodd Derek Walker i gyflwyno papur y Trydydd Sector.

3.5 Diolchodd Derek Walker Ysgrifennydd y Cabinet am ei gyflwyniad a'r cyfle i ymateb. Fe bwysleisiodd swyddogaeth busnesau cymdeithasol o ran helpu i gyflwyno agenda Ffyniant i Bawb, a cheisiodd sicrwydd bod Lywodraeth Cymru yn rhannu'r safbwynt hwnnw.

3.6 Gofynnodd Derek Walker hefyd ynglŷn â'r amserlen ar gyfer y Cynllun Gweithredu a'r cwmpas ar gyfer ymgysylltiad ac ymgynghoriad pellach. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith nad oedd Cynllun Menter Gymdeithasol ar gael ers 2009, a gofynnodd a fyddai cyfle i greu Cynllun Menter Gymdeithasol ar y cyd. Yn olaf, gofynnodd Derek am sicrwydd bod ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â chefnogaeth ar gyfer mentrau cydweithredol a chilyddol yn parhau i fod yn weithred y mae'r llywodraeth yn ymrwymedig i'w chyflawni.

3.7 Teimlodd Peter Williams fod y cyfeiriadau at y sector gwirfoddol mewn trafodaethau llywodraethol yn hen ffasiwn yn rhy aml ac nad oeddent yn cynrychioli'r trydydd sector heddiw. Amlygodd sut mae busnesau cymdeithasol modern yn chwarae rhan bwysig o fewn cymunedau, gan greu eu cyfleoedd eu hunain ar gyfer swyddi. Esboniodd sut y mae'r economi gymdeithasol yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r economi mewn rhai rhannau o Gymru.

3.8 Amlygodd Peter Williams hefyd sut y dylai twf cynaliadwy fod yn thema gyson sy'n rhedeg drwy'r Cynllun Gweithredu ac awgrymodd y dylid cyfeirio'n benodol at y trydydd sector i sicrhau na fyddai'n cael ei anghofio a'i fod yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

3.9 Cyfeiriodd Gareth Coles at y Weledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru, a gyhoeddwyd y llynedd, a gofynnodd am sicrwydd y byddai rôl economaidd y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant yn derbyn sylw dyledus.

3.10 Pwysleisiodd Cath Lewis bwysigrwydd y sector gofal a gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o agenda drawsbynciol.

3.11 Croesawodd Matt Appleby y cynnig Contract Economaidd, ac edrychodd ymlaen at weld y manylion. Yn arbennig, roedd yn awyddus i ddeall sut y gallai'r contract rwymo busnesau i ddarparu nodau cymdeithasol ac economaidd Ffyniant i Bawb a sut y gallai caffael gael ei alinio i'r Contract Economaidd newydd.

3.12 Gofynnodd Anne Meikle sut y byddai'r dull a amlinellir yn Ffyniant i Bawb yn galluogi rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. Tynnodd Ann sylw at sut roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi herio polisi'r llywodraeth mewn meysydd fel yr M4 a Bargeinion Dinesig. Roedd Ann o'r farn bod Ffyniant i Bawb yn ysgafn o ran esbonio sut y byddai cynaliadwyedd yn cael

ei sicrhau. Pwysleisiodd sut yr oedd WWF yn awyddus i gymryd rhan wrth helpu Llywodraeth Cymru gyda hyn.

3.13 Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Cynllun Gweithredu Economaidd. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r ddogfen ym mis Tachwedd er mwyn ei chyhoeddi cyn gwyliau'r Nadolig. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu, cyn ac ar ôl cyhoeddi.

3.14 Wrth ymateb i'r cwestiynau a godwyd, pwysleisiwyd y canlynol gan Ysgrifennydd y Cabinet:

- Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn parhau i fod yn rhaglen y llywodraeth ar gyfer y tymor hwn. Mae'r strategaeth Ffyniant i Bawb yn cefnogi cyflwyniad y rhaglen honno.
- Mae’r gwaith alinio a fydd yn digwydd gydag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, megis gyda gofal cymdeithasol, yn enghraifft o hyn.
- Pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran helpu i ffurfio'r dull, a'r dysgu sy'n digwydd o ganlyniad i arferion da.
- Y swyddogaeth bwysig sydd gan fentrau cymdeithasol i'w chwarae wrth helpu'r llywodraeth i gyflawni'r nodau a amlinellir yn Ffyniant i Bawb, a byddai'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn cyfeirio'n benodol at hon.

| |
|---|
| Cam Gweithredu 2 – Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet y dylai'r Cynllun Gweithredu Economaidd gyfeirio at swyddogaeth yr economi cymdeithasol. |

3.15 Gofynnodd Anne Meikle a oedd Llywodraeth Cymru'n mynd i ddefnyddio dulliau megis asesiadau effaith i sicrhau bod holl weithgareddau’r dyfodol yn gynaliadwy'n amgylcheddol.

3.16 Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet y gwelliannau a wnaed o ran hyn, a phwysigrwydd y ffyrdd newydd o weithio a oedd yn cryfhau'r agenda hon.

**4.0 Unrhyw Fater Arall**

4.1 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a oedd unrhyw faterion eraill.

4.2 Gofynnodd Christine Boston am y mater heb ei ddatganoli o drafnidiaeth gymunedol yng Nghymru wledig. Mae Pwyllgor Dethol Trafnidiaeth Cymru wrthi’n gynnal ymgynghoriad ynglŷn â thrwyddedu trafnidiaeth gymunedol a chynaliadwyedd y sector. Dywedodd Christine fod ei haelodau mewn ardaloedd gwledig yn poeni o ran effaith bosibl yr ymchwiliad. Bydd yr Adran dros Drafnidiaeth yn cynnal ymgynghoriad ynglŷn â'r trefniadau trwyddedu ar gyfer trafnidiaeth gymunedol yn yr hydref. Cynigodd Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwnnw pan oedd ar gael yn dilyn ymgynghoriad yr Adran dros Drafnidiaeth.

| |
|---|
| Cam Gweithredu 3 – Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i rannu'r ymateb, ac i swyddogion gofnodi sylwadau gan Christine o ran y mater penodol hwn. |

4.3 Gofynnodd Mathew Brown a fyddai modd o drefnu i gyfarfod nesaf y trydydd sector gyd-fynd gyda'r broses ymgysylltu a amlinellwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet. Mewn ymateb, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r swyddogion fwrw golwg dros yr amserlen.

| |
|---|
| Cam Gweithredu 4 – Bydd swyddogion yn ystyried yr amserlen ar gyfer cyfarfod grŵp nesaf y trydydd sector, gan ystyried trefnu cyfarfod ar wahân gyda swyddogion cyn gwyliau'r Nadolig, os yw'n briodol. |

4.4 Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet gloi'r cyfarfod drwy ddiolch i bawb am roi o'u hamser a'u mewnbwn. Dywedodd y byddai swyddogion yn canfasio ar gyfer dyddiadau i'r cyfarfod nesaf maes o law, gan ystyried yr amserlen ar gyfer y broses ymgysylltu.

**Cau**